# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 14 Ebrill, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd
Wyn Davies
Catherine Hughes
Nia W. Jones
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams.

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 10 Mawrth, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Hughie Williams.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Daeth yr ateb canlynol gan Mr. Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor yn dilyn e-bost 12.03.2022.

1. <u>Lôn Llyn, Boduan</u>
   Mae'r Peiriannydd Ardal mewn trafodaeth gyda Stad Glynllifon iddynt gwblhau'r gwaith yn y dyfodol agos.

2. <u>Pont Sarn Glorian</u>
   Bydd datganiad ffurfiol ar sefyllfa diweddaraf Pont Sarn Glorian yn cael ei ryddhau dros y dyddiau nesaf, a sicrhaf y cewch gopi ohono.

3. <u>Pont Bodfel</u>
Mae'r gwaith ar Bont Bodfel wedi ei raglennu i gychwyn cyn diwedd mis Mawrth. Bwriedir rhyddhau datganiad yn fuan i gadarnhau'r union ddyddiad, a manylu'n bellach ar y cynllun.

4. <u>Lôn Cefn Mine, Rhydyclafdy</u>
Mae archwiliad wedi'i wneud o'r ffordd yma ac nid oes tyllau i'w gweld yn y man pasio swyddogol. Ond, mae'n ymddangos bod traffig yn defnyddio'r glaswellt gydag ochr y ffordd mewn ambell i le, felly bydd y glaswellt yma yn cael ei atgyweirio pan fydd adnoddau'n caniatáu.

## 4. Dewis Swyddogion:-

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Ll. Williams bod Hughie Williams yn cael ei ail-ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022 / 2023 gyda Rhys Jones yn Is-gadeirydd. Fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

## 5. Derbyniwyd y canlynol yn gywir:-

Rheoliadau Sefydlog
Rheoliadau Ariannol
Rheoliadau Mewnol
Polisi Ymateb i Gwynion
Asesiad Risg
Côd Ymddygiad

## 6. Ymatebion i ohebiaeth

*Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023* – Derbyniwyd llythyr gan Lois Jones o Swyddfa'r Eisteddfod yn gofyn am ein cyfraniad o £1000 tuag at gystadleuaeth 'Côr yr Ŵyl'.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r swyddfa i edrych a fuasai'n bosib cyfrannu £500 eleni a £500 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 7. <u>Materion Ariannol</u>

Derbynwid cysoniad y banc am y cyfnod 4 Mawrth, 2022 i 3 Ebrill, 2022 yn gywir yn y swm o £4311.48.
(**Siec rhif 200661 – Tu Hwnt i'r Afon heb fynd drwy'r banc).**

Adroddwyd bod Lord Newborough wedi rhoi addewid o £100 tuag at gynnal a chadw'r fynwent ym Moduan.

Y sieciau isod wedi cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Cath Becket, Tu Hwnt i'r Afon | £20.00 | Siec Rhif 200664 |
| Nerys Williams + stampiau (£15.84) | £127.83 | Siec Rhif 200665 |
| Cyllid a Thollau (Mis 1) | £27.80 | Siec Rhif 200666 |

## 8. Materion Cynllunio

**Rhif Cais: C20/0102/33/LL** - Plas Yng Ngheidio, Ceidio, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8YL

Trafodwyd y cais uchod.

**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.

## 9. Datgan Diddordeb

Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd Wyn Davies.

## 10. Dathliadau Jiwbili y Frenhines –

Trafodwyd y posibilrwydd o archebu cypannau i holl blant Cyngor Cymuned Buan i ddathlu Jiwbili y Frenhines. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd peidio cario 'mlaen â hyn.

## 11. Unrhyw fater arall

Cafwyd cŵyn bod sbwriel wedi cael ei adael ar ochr y ffordd rhwng Cefn Llanfair a Tŷ Isaf (ger Bryn Celyn) a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran briodol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn iddynt ddod i'w glirio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 p.m.

## 12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Nos Iau, 12 Mai, 2022 yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.